*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 999

# Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisiau Deiliad-cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000.

## RHAN III

*RHWYMEDIGAETHAU Y BYDD YR AWDURDODAU IECHYD YN ATEBOL AMDANYNT A CHOSTAU Y BYDDANT YN EU TALU*

### Defnyddio asedau a drosglwyddir

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fydd —

(a) unrhyw asedau wedi eu trosglwyddo i'r Awdurdod Iechyd yn unol ag erthygl 2; a

(b) yn unol ag erthyglau 3, 5 neu 6, gellir gorfodi unrhyw rwymedigaeth yn erbyn yr Awdurdod Iechyd, neu mae unrhyw gost i'w thalu gan yr Awdurdod Iechyd,

bydd yr Awdurdod Iechyd yn sicrhau bod y rhwymedigaeth neu'r gost yn y lle cyntaf yn cael ei thalu o'r asedau a drosglwyddwyd.

(2) Pan fydd rhwymedigaethau a chostau yn uwch na chyfanswm gwerth yr asedau a drosglwyddwyd, rhaid talu amdanynt o'r asedau a drosglwyddwyd yn y drefn ganlynol—

(a) costau a dynnwyd wrth baratoi cyfrifon fel y'u nodir yn erthygl 5;

(b) y gost o fod yn atebol am hawliau a rhwymedigaethau a gadwyd gan gyn-aelodau'r practis deiliad-cronfa fel y'u nodir yn erthygl 6;

(c) y gost o fod yn atebol am hawliau a rhwymedigaethau a drosglwyddwyd i'r Awdurdod Iechyd yn unol ag erthygl 3.

### Costau a dynnir wrth baratoi cyfrifon y practisiau deiliad-cronfa gweddilliol

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i erthygl 9, bydd yr Awdurdod Iechyd yn talu costau rhesymol a dynnwyd gan gyn-aelodau o bractis deiliad-cronfa a oedd yn bractis deiliad-cronfa gweddilliol wrth baratoi cyfrifon blynyddol y practis hwnnw ar gyfer y flwyddyn ariannol 1999-2000, a gall gynnwys—

(a) taliadau i weithwyr neu gyn-weithwyr y practis deiliad-cronfa gweddilliol;

(b) taliadau naill ai —

(i) i gyn-aelod o'r practis deiliad-cronfa gweddilliol, neu

(ii) i ymarferydd meddygol cofrestredig ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol i gleifion y practis deiliad-cronfa gweddilliol blaenorol sydd wrthi'n paratoi'r cyfrifon;

(c) ffioedd archwilwyr;

(ch) taliadau sy'n ymwneud â chyfrifiaduron a gwybodaeth technoleg.

(2) Caiff yr Awdurdod Iechyd secondio unrhyw un o'i swyddogion neu ei weithwyr hefyd i gynorthwyo cyn-aelodau'r practis deiliad-cronfa gweddilliol wrth baratoi cyfrifon blynyddol y practis deiliad-cronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 1999-2000, ac yn yr achos hwnnw bydd yn talu cost y secondiad.

(3) Caiff yr Awdurdod Iechyd ryddhad o unrhyw rwymedigaeth i dalu costau a dynnwyd yn unol â pharagraff 1, yn gyfan neu'n rhannol, wrth ryddhau rhwymedigaeth cyn-aelodau practis deiliad-cronfa gweddilliol i unrhyw berson arall.

### Hawliau a rhwymedigaethau sy'n parhau gyda'r cyn-aelodau

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), caiff unrhyw rwymedigaeth na ellid ei gorfodi yn erbyn yr Awdurdod Iechyd yn unol ag erthygl 3, ei thalu er hynny gan yr Awdurdod Iechyd os yw'r rhwymedigaeth —

(a) yn un sy'n digwydd o fewn erthygl 3(2); neu

(b) yn cael ei thynnu cyn 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny yn unol â chydsyniad ysgrifenedig a roddwyd cyn y dyddiad hwnnw.

(2) Bydd yr Awdurdod Iechyd yn rhwym i dalu am rwymedigaeth cyn-aelodau o'r practis deliaid-cronfa o dan baragraff (1) hyd at yr isafswm o unrhyw derfyn sydd ar y swm i'w ddefnyddio a nodir yn y cydsyniad ysgrifenedig neu ym mharagraffau 3(B) a 3(C) o reoliad 25(**1**) o Reoliadau 1996 fel y cafodd y paragraffau hynny effaith ar y dyddiad y rhoddwyd cydsyniad yr Awdurdod Iechyd.

(3) Pan fydd cyn-aelodau'r practis deiliad-cronfa yn dod yn ymwybodol o unrhyw hawliad yn ymwneud â rhwymedigaeth sy'n dod o fewn paragraff (1), rhaid iddynt –

(a) rhoi gwybod i'r Awdurdod Iechyd am yr hawliad; a

(b) gweithredu yn ôl gofyniad rhesymol yr Awdurdod Iechyd er mwyn osgoi, dadlau, gwrthwynebu, cyfaddawdu, amddiffyn neu apelio yn erbyn yr hawliad.

(**1**) Mewnosodwyd paragraffau 3B a 3C o reoliad 25 gan O.S. 1998/693, Rheoliad 11(4). Diwygiwyd paragraff 3(B) gan O.S. 1999/261, rheoliad 22(7) ac amnewidiwyd paragraff 3(C) gan O.S. 1999/261, rheoliad 22(8).